Cymorth Trethi Dewisol i Elusennau a Sefydliadau Eraill Polisïau Cymeradwy

Rhaid ystyried pob cais am gymorth yn unigol. Fodd bynnag, mae'n briodol llunio polisïau arweiniad i ddarparu fframwaith er cysondeb.

Yn unol â hynny, mae'r polisïau cyffredinol i'w hystyried mewn ceisiadau am gymorth dewisol fel a ganlyn: -

(a) Caiff cymorth trethi dewisol o dan ddarpariaethau Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ei roi i sefydliadau cymwys.

(b) Dyfernir 20% o gymorth dewisol fel arfer i sefydliadau sy'n gymwys i dderbyn cymorth gorfodol o 80% os nad oes gan y sefydliad far trwyddedig.

(c) Rhaid i sefydliad sy'n cynnal bar trwyddedig allu dangos nad yw'r bar yn brif atyniad nac yn atyniad sylweddol i'r rhan fwyaf o'r aelodau.

(ch) Nid ystyrir rhoi cymorth i sefydliad os yw ei gyfrifon yn dangos yn glir ei fod yn gallu talu neu greu digon o incwm i dalu costau cynnal. Ni fydd sefydliadau sy'n cynhyrchu dros £50,000 y flwyddyn mewn incwm bar fel arfer yn gymwys i dderbyn cymorth, ar wahân i glybiau chwaraeon, a drafodir ar wahân yn atodiad A.

(d) Dylid bod yn ystyriol yn achos sefydliad sy'n annog pobl o grwpiau lleiafrifol yn y gymuned i ymaelodi, e.e. pobl ifanc, menywod, grwpiau henoed, pobl ag anableddau, a lleiafrifoedd ethnig.

(dd) Fel arfer dylai aelodaeth fod yn agored i bob rhan o'r gymuned.

(e) Os yw cyfleusterau ar gael i bobl ar wahân i aelodau, yna bydd hyn fel arfer yn achos am ystyriaeth fwy gofalus.

(f) Os yw'r sefydliad yn darparu hyfforddiant neu addysg, byddai hyn fel arfer o fantais wrth ystyried y cais.

(ff) Os yw'r sefydliad yn darparu cyfleusterau y byddai'n rhaid i'r cyngor eu darparu fel arall, bydd y cais yn derbyn ystyriaeth fwy ffafriol.

(g) Byddai unrhyw gymorth a roddir yn para fel arfer am gyfnod o dair blynedd.

(ng) Ni fydd siopau parhaol sy'n gwneud elw a gynhelir gan elusennau fel arfer yn gymwys.

Atodiad A

Cymorth Trethi Dewisol i Glybiau Chwaraeon

1. Caiff y cymorth hwnnw ei gyfrifo ar gymhareb yr aelodau sy'n chwarae – gan gynnwys aelodau
iau – i'r aelodaeth gyfan, ond gyda'r eithriadau canlynol:

a. Os bydd enillion y bar o dan £100,000 y flwyddyn, telir cymorth trethi llawn.

b. Os bydd enillion y bar dros £100,000 ond o dan £125,000, telir 75% o'r cymorth trethi.

c. Os bydd enillion y bar dros £125,000 ond o dan £150,000, telir 50% o'r cymorth trethi.

ch. Mewn achosion sy'n berthnasol i b ac c uchod, byddai cymhareb yr aelodau sy'n chwarae
i'r aelodaeth gyfan yn cael ei chyfrifo a byddai'r dull sy'n arwain at y swm mwyaf o gymorth yn berthnasol
.

2 Yn achos chwaraeon y mae angen cryn dipyn o arian i gymryd rhan ynddynt, mae'n rhaid i glybiau allu dangos bod trefniadau ganddynt i alluogi'r gymuned gyfan fod yn aelodau ac i gymryd rhan.